Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar amgylchedd cymdogaeth

**Irene Bucelli ac Abigail McKnight**
Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain
Medi 2022

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu llywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu meithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Cyd-destun polisi | 6 |
| Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi | 11 |
| Heriau a ffactorau hwyluso | 20 |
| Casgliad | 21 |
| Cyfeirnodau | 23 |
| Atodiad: Methodoleg | 32 |
| Diolchiadau | 37 |

# Crynodeb

- Gall anfantais sy’n cronni mewn ardal ddaearyddol arwain at allgáu dwys. Mae gan bolisïau sy'n seiliedig ar le rôl bwysig i'w chwarae, gan effeithio ar ystod o agweddau ar ansawdd bywyd a phrofiadau o gyfranogiad economaidd, cymdeithasol a dinesig.

- Mae'r mathau hyn o atebion lleol yn gyfyngedig mewn perthynas â lleihau tlodi, sy’n awgrymu na ddylid eu hystyried ar wahân i bolisi cenedlaethol a rhanbarthol ategol ynghylch, er enghraifft, tai, cyflogaeth, addysg a nawdd cymdeithasol.

- Er mwyn sicrhau bod y rhai sydd dan anfantais yn elwa o bolisïau adfywio lleol, mae angen pennu amcanion tegwch a chynhwysiant cymdeithasol clir, ynghyd â dulliau digonol o werthuso a monitro – ni ellir disgwyl i dwf a ffyniant 'dreiddio i lawr' yn naturiol.

- Mae cysylltiadau rhwng amgylchedd cymdogaeth a meysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill, er enghraifft:

    - **Allgáu digidol:** Mae llawer o strategaethau ar gyfer adfywio trefol wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar ysgogi manteision posibl digideiddio. Mae angen strategaethau sy'n cefnogi cynhwysiant digidol er mwyn lleihau'r perygl o atgyfnerthu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

    - **Dyled aelwydydd; Ansicrwydd bwyd; Tlodi tanwydd:** Gall strategaethau adfywio amharu ar rwydweithiau cymorth anffurfiol (teuluoedd, ffrindiau, cymdogion) sy'n chwarae rhan hollbwysig wrth liniaru’r ffactorau risg a brofir gan aelwydydd tlawd.

- Rydym yn gorffen yr adolygiad gyda rhai camau gweithredu addawol a nodwyd yn y llenyddiaeth ryngwladol, sef:

    - **Mae pennu amcanion clir mewn perthynas â lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol** yn bwysig er mwyn i ymdrechion adfywio sicrhau bod y manteision yn cyrraedd y rhai mwyaf difreintiedig ac i osgoi boneddigeiddio.

    - Mae hyn yn galw am gynllunio gwerthusiadau ochr yn ochr ag ymyriadau sy'n **canolbwyntio ar ganlyniadau dosbarthiadol,** nid dim ond prosesau ac allbynnau. Dylid cynnwys graddfeydd amser ac amcangyfrifon realistig o 'werth cymdeithasol' hefyd.

    - Gall **dulliau a arweinir gan y gymuned** liniaru risgiau boneddigeiddio, ond mae angen ymgysylltu'n rhagweithiol â dinasyddion difreintiedig yn y gymuned.

# Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE)[1] yn Ysgol Economeg Llundain i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisïau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar amgylchedd cymdogaeth.

Dyma'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd ym mhob un o'r deuddeg adolygiad polisi:

- Pa bolisïau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol sy'n effeithiol wrth leddfu tlodi?
- Pa briodweddau/safonau a nodweddion sy'n allweddol neu'n gyffredin i'r gwahanol ddulliau hynny?

Ymdrinnir â'r cwestiynau drwy ddarparu:

- Cyd-destun Cymru ym mhob maes polisi a phrif fentrau Llywodraeth Cymru;
- Gwybodaeth fanwl am berthynas y maes polisi dan sylw â thlodi ac allgáu cymdeithasol;
- Crynodeb o'r dystiolaeth ynghylch profiad a allai helpu i ddeall effaith polisïau ar bobl ac ymateb y bobl i bolisïau o'r fath;
- Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiolrwydd polisïau (gan gynnwys astudiaethau achos); a
- Heriau a ffactorau hwyluso sy'n gysylltiedig â rhoi polisïau ar waith.

Yn ogystal â'r deuddeg adolygiad polisi, rydym wedi llunio adroddiad trosolwg sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol o bob adolygiad unigol, nodi cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a chloriannu'r holl dystiolaeth i roi nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r deuddeg maes. Cyfeiriwch at yr

[1] Sefydlwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE) ym 1997. Canolfan ymchwil amlddisgyblaethol ydyw sy'n archwilio anfantais gymdeithasol a rôl polisïau cymdeithasol a chyhoeddus wrth ei hatal, ei lliniaru neu ei gwaethygu. Mae gan ymchwilwyr yn CASE brofiad helaeth o gynnal adolygiadau polisi sy'n ymdrin â thystiolaeth yn y Deyrnas Unedig a llenyddiaeth ryngwladol.

Atodiad i gael manylion am fethodoleg, gan gynnwys sut y dewiswyd y deuddeg maes polisi penodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd gan WCPP fel rhan o'i gwaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gwaith hwn gan CASE, ceir dau adroddiad ar natur, graddfa a chyfeiriad tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru – un yn canolbwyntio ar dystiolaeth a data meintiol, a'r ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth o brofiad go iawn (Carter, 2022a; 2022b). Comisiynodd WCPP hefyd y Sefydliad Polisi Newydd i gynnal adolygiad o strategaethau lliniaru tlodi rhyngwladol (Kenway et al., 2022) sy'n archwilio dulliau llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â thlodi.

# Cyflwyniad

Mae'r adolygiad hwn yn archwilio'r dystiolaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd ymyriadau amgylchedd cymdogaeth i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar bolisïau adfywio cymdeithasol ac economaidd seiliedig ar ardal sy'n aml yn cynnwys cyfuniad o fentrau cymdeithasol, adnewyddu ffisegol (gan gynnwys adnewyddu tai), strategaethau datblygu economaidd lleol ac ymgysylltu â'r gymuned.

# Cyd-destun polisi

Mae polisïau seiliedig ar ardal a lle wedi bod yn rhan o lunio polisïau'r Deyrnas Unedig ers tro byd, ac o dan Lafur yn y 1990au rhoddwyd blaenoriaeth wleidyddol i fentrau amgylchedd cymdogaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd y gweithgarwch a'r cyllid ar gyfer adnewyddu cymdogaethau, a ddaeth yn ystyriaeth brif ffrwd, drawsadrannol i lywodraeth y Deyrnas Unedig (Lupton, 2013). Roedd polisïau o'r fath yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymrwymiad penodol i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol (SEU, 1998).

Yng Nghymru, mae gan weithgareddau datblygu economaidd wedi'u targedu ar sail ardaloedd (e.e. mewn ardaloedd fel Bae Caerdydd, Glannau'r Barri, y Cymoedd a Gogledd Cymru) hanes hir sy'n dyddio'n ôl i'r 1980au. Roedd Cymunedau yn Gyntaf, sef rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned sy'n cefnogi Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Trechu Tlodi, yn cynnwys pwyslais ar adnewyddu cymdogaethau, ac fe'i cynhaliwyd rhwng 2001 a 2017. Mae polisi cynllunio Cymru wedi canolbwyntio'n fwy diweddar ar y syniad o 'Gyflawni Lles trwy Greu Lleoedd' (Llywodraeth Cymru, 2021). Yn unol â gofyniad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a ddaeth i rym ym mis

Mawrth 2021, mae'r polisi cynllunio yn cydnabod yr angen i ystyried lleihau anghydraddoldebau sy'n arwain at anfantais economaidd-gymdeithasol. Deëllir bod unioni anfantais economaidd yn golygu gwella cyfleoedd cyflogaeth lleol, uwchraddio'r amgylchedd, a chysoni swyddi a gwasanaethau â thai a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy.

Mae diddordeb mewn adfywio canol trefi a strydoedd mawr wedi bod yn ganolog i lunio polisïau yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf, ac mae newidiadau i'r sector manwerthu yn allweddol i'r dadleuon hyn (NAW, 2012). Nid oedd pandemig y Coronafeirws wedi effeithio'n unffurf ar y sector manwerthu ac er i werthiannau ar-lein ar draws y sector weld twf blynyddol o 51.6% erbyn mis Awst 2020, nid oedd pob busnes yn gallu cynnal a thyfu ei weithgareddau drwy symud i e-fasnach (Llywodraeth Cymru, 2020a). Yn y Deyrnas Unedig, dangoswyd bod gwerthiannau ar-lein yn cynyddu yn ôl maint busnes. Dim ond 45% o ficrofusnesau sy'n defnyddio gwefan o gwbl, o gymharu ag 84% o fusnesau sydd â deg neu fwy o weithwyr (ONS, 2019). Er ei bod yn ymddangos bod pandemig y Coronafeirws wedi cyflymu'r newid i werthiannau ar-lein, roedd y duedd honno eisoes yn bodoli ac wedi rhoi pwysau sylweddol ar strydoedd mawr a chanol trefi yn ystod y degawd diwethaf. Mae manwerthwyr wedi gorfod addasu i'r newid radicalaidd i arferion siopa mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft drwy gau siopau ffisegol, mabwysiadu cynnig aml-sianel ac ailstrwythuro eu gweithlu.

Fel y mae adroddiad diweddar HCLGC (2019) yn pwysleisio, er bod swyddogaethau dinesig a chymunedol yn fwy amlwg ar strydoedd mawr y Deyrnas Unedig yn y gorffennol, manwerthu yw'r prif weithgaredd bellach, gan felly gryfhau'r cysylltiad rhwng ffawd y stryd fawr a thueddiadau defnyddwyr ac economaidd. Mae manwerthwyr gwasanaeth annibynnol na ellir cael eu gwasanaethau ar-lein (e.e. barbwyr, salonau harddwch, siopau trwsio esgidiau) wedi bod yn gwneud yn well, gan newid cyfansoddiad strydoedd mawr a chanol trefi (HCLGC, 2019). Nododd yr adroddiad bedair her ar gyfer strydoedd mawr y Deyrnas Unedig:

1. Gormod o le manwerthu – o ran arwynebedd a maint siopau;
2. Perchnogaeth dameidiog, sy'n rhwystro ymateb cydgysylltiedig;
3. Costau sefydlog uchel (e.e. ardrethi busnes a rhenti); a
4. Threthiant busnes – gan fod ardrethi busnes yn dreth ar sail eiddo, ystyrir yn gyffredin ei bod yn rhoi mantais gystadleuol i fanwerthwyr ar-lein sy'n tueddu i dalu rhent is fesul troedfedd sgwâr ac am werth ardrethol is.

O ran yr her gyntaf, mae galwadau a rennir yn eang bellach i symud angor canol trefi a strydoedd mawr i'w gwneud yn fwy 'seiliedig ar weithgareddau' – gan eu gwneud yn ganolfannau o ddiddordeb diwylliannol, hamdden a chymunedol – ar yr un pryd â

chynyddu defnydd preswyl (HCLGC, 2019). Mae hwn yn gyfeiriad y gellir ei adnabod yng Nghymru hefyd. Er enghraifft, mae papur tystiolaeth diweddar gan Bwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau (EISC) Llywodraeth Cymru yn pwysleisio:

> **"Ni all canol trefi fod yn lleoedd i siopa yn unig mwyach. Mae angen i ganol trefi fod yn fannau lle mae pobl yn dod i ddysgu, i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, i gefnogi ffyrdd egnïol o fyw, i fyw, ac i ymlacio."** (EISC, 2018, tud.1)

Mae hyn yn cynnwys nodi unedau preswyl priodol ar gyfer byw a gweithio ac, yn fwy cyffredinol, hyrwyddo cymysgedd o fannau tai, manwerthu, cyhoeddus a gwyrdd (EISC, 2018). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn weithgar mewn perthynas ag ardrethi busnes, gan gyflwyno nifer o gynlluniau rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, ac yn benodol ar gyfer strydoedd mawr, ers 2017.

Mae adfywio ac ailfywiogi canol trefi yn ganolog i gynlluniau Cymru ar gyfer ailadeiladu ar ôl y Coronafeirws (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae’r cynlluniau hyn, er eu bod yn cydnabod heriau, hefyd yn sylweddoli bod y pandemig wedi arwain at newidiadau i drefniadau gweithio, mwy o ffocws ar yr amgylchedd lleol, ac ymdeimlad o gymuned, a all gyflwyno cyfleoedd i ailfywiogi economïau a chymunedau lleol. Mae 'pecyn Trawsnewid Trefi' gwerth £110 miliwn ac agenda 'Canol Trefi yn Gyntaf' yn blaenoriaethu mesurau i gynyddu nifer yr ymwelwyr drwy sicrhau bod y sector cyhoeddus yn lleoli gwasanaethau yng nghanol trefi; addasu adeiladau a thir gwag at ddibenion gwahanol; hyrwyddo mannau gwyrdd; a gwella cysylltedd digidol. Mae nifer o grantiau wedi cael eu darparu hefyd fel 'pecynnau ariannu ar gyfer creu lleoedd', sy'n canolbwyntio ar adfywio canol trefi ac yn caniatáu i awdurdodau lleol benderfynu'n hyblyg ar y cymysgedd mwyaf priodol o ymyriadau.

Mae'r dull gweithredu'n gyson â'r hyn a gefnogir mewn cynlluniau cynharach, fel menter Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru (2013-2017), a oedd yn darparu'r prif fframwaith ar gyfer polisi adfywio ac yn canolbwyntio ar ganol trefi difreintiedig, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd cronfeydd Ewropeaidd yn ategu ac yn cefnogi gweithgareddau yn y maes hwn – er enghraifft drwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a ddyrannwyd i'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn disodli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn rhannol yn 2022 ond oherwydd y caiff ei gweithredu drwy un fframwaith ledled y Deyrnas Unedig a weinyddir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig, bydd gan y gweinyddiaethau datganoledig rôl fwy cyfyngedig o lawer (Nice, Paun a Hall, 2021). O dan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd anfonwyd mwy o arian at y gwledydd datganoledig nag at Loegr, a’r gweinyddiaethau datganoledig oedd yn penderfynu sut a ble i wario eu dyraniadau (Nice, Paun a Hall, 2021). Yn ogystal, bydd awdurdodau lleol Cymru hefyd yn derbyn 5% o'r rownd gyntaf o gyllid o Gronfa

Codi’r Gwastad y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys £125,000 o gyllid capasiti fesul awdurdod lleol i fuddsoddi mewn seilwaith lleol, uwchraddio trafnidiaeth leol, a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2021).

# Y berthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae rhai ardaloedd yn gweld crynodiadau uchel o dlodi, a dangoswyd bod y broses o grynhoi daearyddol wedi cynyddu ym Mhrydain ers y 1970au (Fahmy et al., 2011; Glennerster et al., 1999). Mae hyn wedi'i ysgogi'n rhannol gan ailstrwythuro economaidd a dirywiad mewn diwydiannau allweddol sy'n rhyngweithio â phrosesau gwahanu preswyl i greu 'troellau o ddirywiad'. Yn y senarios hyn, mae gostyngiad mewn poblogrwydd ac atyniad ardal yn cyd-ddigwydd ag esgeulustod amgylcheddol cynyddol, cynnydd mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a thynnu gwasanaethau cyhoeddus a phreifat yn ôl.

Mae’r agwedd ddaearyddol ar allgáu cymdeithasol wedi'i chydnabod ers tro, gyda nifer o fesurau gwahanol posibl, er enghraifft:

- **'Lled' yr allgáu,** sy'n cyfeirio at nifer y bobl mewn man sy'n profi amddifadedd mewn perthynas ag o leiaf un dangosydd;
- **'Dyfnder' yr allgáu,** sy'n cyfeirio at nifer y bobl mewn lle sy'n profi sawl math o amddifadedd; ac
- **'Allgáu dwys',** sy'n cyfeirio at y crynodiad o anfanteision mewn ardaloedd daearyddol penodol (Miliband, 2006; Levitas et al., 2007).

Mae gan bolisi cynllunio rôl allweddol i'w chwarae oherwydd dosbarthiad daearyddol y cyfleoedd a’r rhwystrau sy’n gallu gwaethygu mathau o allgáu (Turok et al., 1999). O fewn Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM; Levitas et al., 2007), mae polisïau adfywio yn dod o fewn y maes amgylchedd byw, ond mae ganddyn nhw gysylltiad agos ag eraill:

- Trwy greu cyfleoedd cyflogaeth, gallant feithrin **cyfranogiad economaidd**.
- Trwy fuddsoddi mewn seilwaith a gweithgareddau cymunedol a hamdden, gallant **wella mynediad at wasanaethau a chefnogi cyfranogiad cymdeithasol yn ogystal â hybu adnoddau cymdeithasol** (e.e. cryfhau ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol sy'n cael eu culhau gan wahanu gofodol).

- Gall adfywio fynd i'r afael ymhellach â nodweddion annymunol eraill sy'n gysylltiedig ag ardaloedd difreintiedig neu ar wahân (e.e. cyfraddau troseddu uchel, llygredd), gan felly **gyfrannu at ansawdd bywyd** yn ehangach.

Gweler yr Atodiad i gael gwybodaeth am y B-SEM a'i feysydd.

Nid yw hyn yn golygu nad yw strategaethau seiliedig ar ardaloedd i fynd i'r afael â thlodi yn wynebu beirniadaeth. Amser hir yn ôl, beirniadodd Peter Townsend yr holl syniad o strategaethau seiliedig ar ardal oherwydd eu bod yn anwybyddu sbardunwyr cenedlaethol strwythurol tlodi a rôl newidiadau macro-economaidd ehangach na all strategaethau lleol fynd i'r afael â nhw (Glennerster et al., 1999). At hynny, mae tystiolaeth o 'effeithiau ardal/cymdogaeth' fel y'u gelwir – yr effeithiau negyddol y mae byw mewn ardaloedd difreintiedig yn eu cael ar gyfleoedd bywyd preswylwyr yn fwy nag effaith eu nodweddion unigol – yn gymysg ar y gorau (Bradshaw, 2004; Galster, 2012).

Ar yr un pryd, gan fod anghydraddoldeb wedi cynyddu'n sydyn ym Mhrydain a nifer o ysgolheigion wedi tynnu sylw at wahanu daearyddol cynyddol (Glennerster et al., 1999; Dorling a Pritchard, 2010), mae bellach yn amlwg nad yw twf a ffyniant yn cael eu rhannu'n gyfartal ac nad ydynt o reidrwydd yn cynorthwyo'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn ddiweddar, mae effeithiau polareiddio tiriogaethol, yn enwedig rhwng lleoedd sy'n ffynnu ac yn cipio twf, ac eraill sy'n profi dirywiad ac sy'n cael eu dal mewn 'trapiau datblygu', wedi cael eu cysylltu ag ansefydlogrwydd gwleidyddol ac erydu cydlyniant cymdeithasol ac ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd (Rodriguez-Pose, 2020). Mae'r ddeinameg hon yn awgrymu bod gan fuddsoddiad lleol, sy'n sensitif i le ac ymyriadau sy’n cael eu gwahaniaethu’n diriogaethol rôl bwysig i'w chwarae mewn perthynas ag ystod o agweddau ar allgáu cymdeithasol.

# Y berthynas â phrofiad pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae cysylltiad ag ardal leol yn rhywbeth y mae llawer o astudiaethau sy'n canolbwyntio ar brofiad byw trigolion mewn cymdogaethau difreintiedig yn ei gydnabod. Er gwaethaf y caledi a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd hyn, mae ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth, adnoddau cymdeithasol lleol a chyfarwydd a rhwydweithiau cymorth i gyd yn ffactorau pwysig sy'n atal pobl rhag gadael (Batty et al., 2011; Corcoran, 2002). Er y dangosir bod prosesau newid, gan gynnwys mwy o symudedd neu amrywiaeth preswyl, yn lleihau'r ymdeimlad hwn o gysylltiad (Livingston et al., 2010), gall prosiectau adfywio nad ydynt yn gysylltiedig ag anghenion trigolion ac nad ydynt yn ymgysylltu â chymunedau lleol nid yn unig erydu

gwasanaethau a chyfleustodau angenrheidiol yn wrthrychol (Foord, 2010) ond hefyd ysgogi ymdeimlad goddrychol dwys o golled ymhlith trigolion (Batty et al., 2010).

Hyd yn oed mewn achosion a nodweddir gan fathau o foneddigeiddio – y newid mewn cymdogaeth sy'n gweld prosesau adfywio mewn ardaloedd difreintiedig yn arwain at ddadleoli trigolion difreintiedig a busnesau lleol – mae'n bwysig cydnabod bod agweddau trigolion yn aml yn gymysg: er bod cryn dystiolaeth o fathau o wrthwynebiad, mae agweddau cadarnhaol yn bodoli hefyd, er enghraifft cydnabod ansawdd gwell amwynderau (Doucet, 2009). Fodd bynnag, wrth wraidd yr agweddau cadarnhaol hyn ymhlith trigolion, teimlir yn aml nad oedd datblygiad ardal wedi'i fwriadu ar eu cyfer nhw, ac nid nhw sy'n cael y budd mwyaf ohono (Doucet, 2009). Felly, mae ymgysylltu â'r broses adfywio yn agwedd allweddol a all fod yn fath o gynhwysiant cymdeithasol ynddi'i hun.

# Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Dulliau o'r brig i lawr, sy'n seiliedig ar le**<br>(e.e. cynllunio a gweithredu sy'n gysylltiedig â datblygu tai, cymorth busnes, darparu gwasanaethau cymdeithasol, datblygu'r gweithlu) | Cymysg (ansawdd amrywiol, yn anaml yn canolbwyntio ar effeithiau ar dlodi) | Cymysg (canlyniadau cadarnhaol o ran ystod o ddimensiynau ond effeithiau negyddol hefyd) |
| **Dulliau o'r gwaelod i fyny, a arweinir gan y gymuned** | Gwerthusiad gwan ar y cyfan | Effeithiol |

Fel yr amlinellir uchod, mae strategaethau adfywio sy'n seiliedig ar le yn ceisio cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac addysgol i bobl leol a gwella ystod o agweddau sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd (Galster, 2017). Gall hyn gynnwys mabwysiadu ystod eang o weithgareddau a strategaethau, o strategaethau datblygu economaidd a dynol, cymorth busnes, darparu gwasanaethau cymdeithasol a datblygu'r gweithlu, i adnewyddu cymdogaethau'n ffisegol. Mae rhai yn brosiectau cymdogaeth ar raddfa fach ac mae rhai yn ymyriadau aml-sector mwy o lawer sy'n cynnwys nifer o gymdogaethau ac ardaloedd lleol. Mae rhaglenni'n amrywio'n fawr o ran hyd, lefelau a ffynonellau ariannu yn ogystal â strwythurau llywodraethu. Mae'r rhan fwyaf o

raglenni’n ymyriadau cymhleth sy'n unigryw i'r ardal ymyrraeth wedi'i thargedu, yn seiliedig ar bartneriaethau amlochrog (Crimeen et al., 2017).

Mae'r adolygiad hwn yn gwahaniaethu rhwng ymyriadau sy'n defnyddio dull o'r brig i lawr (gan y llunwyr polisi i'r trigolion a'r gymuned) a dull o'r gwaelod i fyny (gan y trigolion a'r gymuned i'r llunwyr polisi). Mae dull o'r brig i lawr yn cynnwys rhyw fath o gynllunio a gweithredu canolog, yn aml gyda chyfranogiad uniongyrchol gan lywodraethau neu sefydliadau cyhoeddus. Byddai dull o'r gwaelod i fyny yn golygu mwy o gyfranogiad gan weithredwyr o’r trydydd sector a’r gymuned leol a mwy o gynllunio a gweithredu datganoledig. Yn ymarferol, fel y bydd yr adolygiad hefyd yn dangos, mae dulliau sy’n gyfan gwbl o'r brig i lawr neu o'r gwaelod i fyny yn anghyffredin, er enghraifft oherwydd bod ymyriadau o'r brig i lawr yn aml yn ceisio adeiladu ar bartneriaethau aml-randdeiliad ac ymgysylltu lleol, tra bod dulliau o'r gwaelod i fyny yn dibynnu ar gefnogaeth barhaus gan y llywodraeth. Serch hynny, mae'r gwahaniaeth hwn yn ddefnyddiol i nodi canlyniadau a heriau penodol sy'n gysylltiedig â phob dull gweithredu.

# Dulliau o'r brig i lawr, sy'n seiliedig ar le

Mae nifer o astudiaethau'n adolygu polisïau o'r brig i lawr sy’n seiliedig ar le, yn bennaf o Ewrop a Gogledd America (Neumark a Simpson, 2014; Foell a Pitzer, 2020; Canolfan Twf Economaidd Lleol What Works, 2016; Dobson et al., 2019). Mae mentrau o'r fath yn canolbwyntio'n bennaf ar wella canlyniadau cyflogaeth a lles mewn ardaloedd difreintiedig, gan weithredu ar wahanol raddfeydd. Mae enghreifftiau’n cynnwys ardaloedd menter, adfywio a arweinir gan brifysgolion, a mentrau sy'n deillio o grantiau dewisol (e.e. Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd).

Mewn adolygiad systematig diweddar o lenyddiaeth yr Unol Daleithiau, canfu Foell a Pitzer (2020) fod ymyriadau datblygu economaidd a’r gweithlu yn cael eu gwerthuso'n fwy cadarn ar y cyfan o gymharu ag ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ailddatblygu neu adnewyddu tai, a bod mentrau mwy cynhwysfawr (e.e. aml-gydran) yn cael eu gwerthuso’n lleiaf cadarn. Yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn cyflwyno darlun cymysg mewn perthynas â gwahanol ganlyniadau:

- **Tlodi**: Nododd llai na thraean o'r astudiaethau a archwiliwyd ganlyniadau sy'n ymwneud â thlodi, gydag effeithiau nad ydynt yn arwyddocaol i raddau helaeth. Nododd rhai ostyngiad mewn cyfraddau tlodi, a gwelwyd bod tlodi wedi cynyddu mewn rhai.
- **Canlyniadau tai** (e.e. effeithiau ar werthoedd eiddo, cyfraddau tai gwag, cyfraddau perchentyaeth, cyfraddau a phrisiau rhent): Mae'r llenyddiaeth yn canfod cynnydd mewn gwerthoedd eiddo yn gyson, ond tystiolaeth gymysg

neu effeithiau nad ydynt yn arwyddocaol o ran canlyniadau eraill. Yn nodedig, gall hyn fod yn broblem mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol: ar y naill law oherwydd effeithiau ar fforddiadwyedd tai (yn enwedig heb gynlluniau i hybu canlyniadau cyflogaeth ar gyfer preswylwyr), ond hefyd oherwydd os bydd adnoddau a ddefnyddir yn yr ardaloedd hyn yn cael eu cyfalafu yn y pen draw drwy werthoedd tir uwch, bydd buddion yn cronni i dirfeddianwyr mewn ardaloedd wedi'u targedu yn hytrach na thrigolion cymunedau tlawd (Kline a Moretti, 2014).

- **Canlyniadau cyflogaeth**: Daw darlun cymysg i'r amlwg mewn perthynas â chanlyniadau cyflogaeth, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau'n adrodd nad oedd ymyriadau'n effeithio ar dueddiadau cyflogaeth mewn meysydd targed, gan fethu â chynhyrchu cynnydd mewn cyflogaeth i raddau helaeth. O ran creu swyddi, nid oedd yr effeithiau'n arwyddocaol i raddau helaeth, gyda rhai effeithiau cadarnhaol ar agoriadau newydd mewn meysydd targed.
- **Incwm ac enillion**: Mae'r darlun hefyd yn gymysg wrth edrych ar incwm ac enillion, gan ddangos yn bennaf bod ymyriadau'n aneffeithiol o ran cynyddu incwm. Canfu Foell a Pitzer (2020) fod hanner yr astudiaethau a gynhwyswyd yn eu hadolygiad yn adrodd am effeithiau nad oeddent yn arwyddocaol, a bod tua thraean wedi canfod effeithiau cadarnhaol, gyda mwy o gynnydd mewn perthynas ag enillion a chyflogau nag incwm.
- **Canlyniadau eraill:** Mae effeithiau ar y boblogaeth yn dangos cynnydd yng nghanran y trigolion hirdymor a arhosodd mewn ardaloedd targed, ond ceir tystiolaeth hefyd o gynnydd mewn trigolion addysg uwch, incwm uwch a gwyn a gostyngiad mewn trigolion o leiafrifoedd ethnig.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r rhai sy'n deillio o'r llenyddiaeth academaidd helaeth ar **ardaloedd menter** – mae'r Unol Daleithiau a Ffrainc ymhlith y gwledydd sy'n cyflwyno'r corff mwyaf arwyddocaol o dystiolaeth (Neumark a Yung, 2019; Reynolds a Ronin; Briant et al., 2019; Mayer et al., 2017; Ham et al.,2011; Busso et al., 2013; Neumark a Simpson, 2014; Freedma, 2013). Mae rhaglenni ardaloedd menter yn targedu ardaloedd a chymdogaethau trefol a gwledig difreintiedig gydag ymyriadau fel cymorthdaliadau treth, buddsoddiadau cyhoeddus, neu reolau a rheoliadau arbennig sy'n denu busnesau neu gynyddu cymhellion i hurio gweithwyr lleol, gyda'r nod o gefnogi adfywio cymdeithasol ac economaidd.

Mae tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn gymysg ar y gorau, gyda llawer o astudiaethau'n tynnu sylw at effeithiau dadleoli (Freedman, 2012). Mae gwaith diweddar wedi dangos problemau gyda'r ychydig astudiaethau a ganfu ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â lleihau tlodi a buddion cyflogaeth (e.e. Ham, 2011; Busso, 2013) o ran dewis cymaryddion, gan

oramcangyfrif canlyniadau cadarnhaol (Neumark a Young, 2019). Ceir tystiolaeth o ardaloedd menter yn yr Unol Daleithiau a mentrau sy'n deillio o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd bod manteision yn aml yn cronni i'r rhai sy'n well eu byd, sydd â sgiliau uwch neu sydd wedi cael eu haddysgu'n well (Reynolds a Ronin, 2015; Mohl a Hagen, 2011).

**Mae'r canfyddiadau hyn yn peri pryder o ran potensial y polisïau hyn i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, gan fod gwerthoedd eiddo uwch a dadleoli grwpiau difreintiedig yn gysylltiedig â phrosesau boneddigeiddio**. Mae effeithiau niweidiol boneddigeiddio yn gwaethygu allgáu cymdeithasol ac fe'u cofnodir yn eang mewn cysylltiad â pholisïau adnewyddu trefol, gan arwain yn aml at danseilio ymdrechion i helpu cymunedau difreintiedig mewn ardaloedd difreintiedig (Lees et al., 2008; Atkinson, 2004; Bridge et al., 2012).

Y tu hwnt i gyfranogiad economaidd a thlodi, ceir tystiolaeth o **effeithiau cadarnhaol ymyriadau sy'n seiliedig ar le ar ganlyniadau allgáu cymdeithasol eraill**, fel gwell mynediad at wasanaethau (e.e. o ran argaeledd ond hefyd o ran ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad), a lleihau troseddu a niwed (Hohl, 2019; Foell a Pitzer, 2019; Crew, 2020; Moore et al., 2014; Dobson et al., 2019; Crisp et al., 2016).

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar effeithiolrwydd ymyriadau o'r brig i lawr. Mae'r rhain yn cynnwys **effeithiau gorlif**, lle mae effeithiau cadarnhaol (e.e. o ran cyflogaeth, creu swyddi) mewn lleoliadau wedi'u targedu yn dod ar draul lleoliadau eraill (Hanson a Rohlin, 2013; Mayer, 2017). Dangosir bod y polisïau hyn hefyd yn effeithio ar **wahanol ddiwydiannau a sectorau cyflogaeth** yn wahanol, er enghraifft oherwydd symudedd swyddi amrywiol ar draws gwahanol sectorau (Freedman, 2013). Yn ogystal, mae symudedd yn bwysig i ddeall sut mae **amrywioldeb o ran effeithiolrwydd hefyd yn dibynnu ar leoliad:** mae lefelau uwch o symudedd a chyflenwad llafur lleol mwy ystwyth (e.e. cymdogaethau mewn ardaloedd trefol sydd wedi'u cysylltu'n dda) yn fwy tebygol o weld cyfraddau uwch o greu swyddi a sefydlu busnesau newydd, ond nid yw hyn yn aml yn arwain at gynnydd mewn enillion ac mae'n dod ar draul dadleoli cwmnïau a gweithwyr presennol. O gymharu, efallai na fydd ardaloedd mwy ynysig yn gweld cymaint o swyddi'n cael eu creu ond hefyd yn gweld llai o effeithiau dadleoli a chynnydd is mewn enillion (Briant et al., 2015).

Tynnwyd sylw at nifer o **heriau sy'n gysylltiedig â gwerthuso rhaglenni seiliedig ar le** (Baum-Snow a Ferreira, 2015). Er enghraifft, mae'n anodd amcangyfrif effaith net rhaglenni unigol pan fydd llawer o gymdogaethau difreintiedig yn cael eu targedu gan wahanol fentrau (sy'n digwydd yn aml). Wrth asesu cost-effeithiolrwydd, yn aml nid oes gan raglenni aml-faes wybodaeth am ddosbarthiad gwariant gwirioneddol a gwerthusiadau penodol o bob maes gwariant (Canolfan Twf Economaidd Lleol What Works, 2016).

# Dulliau o'r gwaelod i fyny, a arweinir gan y gymuned

Nesaf, archwiliwn ymyriadau sy'n mabwysiadu dull o'r gwaelod i fyny ac sy'n ceisio rhyw fath o ymgysylltiad cyfranogol â chymunedau – nid fel derbynwyr yn unig ond fel rhanddeiliaid allweddol, gweithredol wrth lunio polisïau ar sail lleoedd. Mae pwyslais ar ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol a datblygu a arweinir gan y gymuned yn fwyfwy poblogaidd erbyn hyn oherwydd ystyrir y gallai ymyriad o'r fath leddfu'r heriau a archwiliwyd uchod wrth sicrhau tegwch a chynhwysiant.

Yn gyntaf, dylid nodi bod llawer o astudiaethau sy'n asesu ymyriadau o'r math hwn yn cynhyrchu asesiadau disgrifiadol ac adolygiadau astudiaeth achos o fentrau (Burstein a Tolley, 2011; Crimeen et al., 2017, Kelly, 2016). Yn gyffredinol, nid yw'r astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar effeithiau mentrau ar dlodi fel y cyfryw, ac anaml y byddant yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau dosbarthiadol (mae canlyniadau gwahaniaethol yn cyfeirio at yr effeithiau gwahaniaethol ar wahanol grwpiau difreintiedig e.e. pobl ar incwm isel, pobl ag anableddau, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig). Yn hytrach, mae astudiaethau'n aml yn canolbwyntio ar nodi arferion gorau; darparu gwybodaeth am weithgareddau buddsoddi ac allbynnau rhaglenni; disgrifio profiadau wrth ffurfio partneriaethau; a manylu ar hanes sut y cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol.

Fodd bynnag, gall yr allbynnau a'r asesiadau proses hyn fod yn sail i raglenni mawr, cenedlaethol, er enghraifft, yn rhan o gyfnewid gwybodaeth, fel y dangosir yn Astudiaeth Achos 1. Prin yw'r gwerthusiadau meintiol cadarn, ac mae diffyg cynllunio ar gyfer gwerthuso yn gyffredinol a diffyg ffocws ar fesur canlyniadau rhaglenni yn creu heriau wrth asesu effaith dulliau o'r gwaelod i fyny, a arweinir gan y gymuned ar dlodi ac allgáu cymdeithasol (Clapham, 2014). At hynny, mae'r nifer amrywiol o ymyriadau a gynhwysir mewn un rhaglen yn aml yn cael eu cysylltu ag amrywiaeth o fesurau canlyniadau sy'n amrywio ar draws astudiaethau. Mae hyn yn golygu bod cynnal asesiad cyffredinol o'r hyn sy'n gweithio, a sut a pham y gallai ymyriadau fod wedi gweithio, yn gymhleth y tu hwnt i achosion unigol.

Mae hyn yn rhan o anhawster ehangach, cynhenid o fesur neu feintioli gwaith datblygu cymunedol (Pearce et al., 2020). Nodwyd, gan gynnwys mewn perthynas â rhaglenni yng Nghymru fel Cymunedau yn Gyntaf, y gall pwyslais ar asesiadau meintiol safonol o ganlyniadau fod yn niweidiol i gyflawni gwaith datblygu cymunedol, gydag effaith negyddol bosibl ar gynaliadwyedd prosiectau cymunedol a'u nodau sylfaenol (Pearce et al., 2020). Y tu hwnt i werthusiadau safonol, mae amcangyfrif 'gwerth cymdeithasol' yn ymddangos yn arbennig o bwysig i'r prosiectau hyn (e.e.

gan gynnwys canlyniadau goddrychol sy'n deillio o brofiadau trigolion cymunedol ond hefyd canlyniadau gwrthrychol mewn perthynas ag ystod o agweddau yn amrywio o iechyd i ddiogelwch cymunedol, o gysylltiadau cymdeithasol a chymunedol cefnogol i'r llais a'r rheolaeth a roddir i breswylwyr). Datblygwyd nifer o fframweithiau yn ddiweddar i helpu i asesu gwerth cymdeithasol, ond nid yw'r rhain wedi cael eu defnyddio'n eang ac yn gyson eto wrth werthuso mentrau adfywio a arweinir gan y gymuned (Provan a Power, 2019; Lee a Lim, 2018).

## Astudiaeth Achos 1: Rhwydweithiau dinesig a chyfnewid gwybodaeth yn Ewrop

**Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer o fentrau Ewropeaidd wedi creu rhaglenni cyfnewid a dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau o ddinasoedd a threfi i drosglwyddo a lledaenu arfer da sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy a chynhwysol. Mae rhaglenni fel URBACT[2] yn cefnogi'r broses o rannu a gweithredu dulliau o adfywio dinasoedd a threfi sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a dylunio a darparu cyfranogol (URBACT, 2021).**

**Mae gwerthusiadau effaith o'r rhaglen gyffredinol yn dangos ei bod wedi dylanwadu'n bennaf ar wella gwybodaeth bersonol rhanddeiliaid sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosiectau. Dywedodd tua thraean o'r rhanddeiliaid hefyd fod URBACT wedi helpu i wella materion rheoli, cydlynu a llywodraethu sy'n gysylltiedig â darparu a gweithredu gweithgareddau datblygu trefol (Ecorys, 2015). Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y rhaglen wedi cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â'r amgylchedd ffisegol, troseddu, mentrau meithrin gallu cymunedol, a chreu swyddi (Ecotec, 2010). Rhoddwyd llawer llai o bwyslais ar asesu effeithiau ar dlodi. Mae gwerthusiadau hefyd yn nodi'r gwrthgyferbyniad rhwng gwybodaeth gymharol dda am allbwn a diffyg data cryf a 'thystiolaeth bendant' ar ganlyniadau ac effeithiau. Mae'n ymddangos bod effaith URBACT yn gysylltiedig i raddau helaeth â sut mae rhanddeiliaid yn mynd i'r afael â datblygu trefol, er enghraifft mewn perthynas â 'manteision anniriaethol' fel gwelliannau i'r ffordd y cymhwysir dysgu neu greu allbynnau fel pecynnau cymorth, dulliau newydd o fesur, arferion newydd a 'ffyrdd o wneud' datblygiad trefol (Ecorys, 2015).**

**Mae'r rhaglenni cyfnewid hyn wedi tynnu sylw at fwy o ddiddordeb mewn mentrau cymunedol neu gymdogaeth yn Ewrop. Mathau o weithgareddau**

[2] https://urbact.eu/

**entrepreneuraidd cymunedol yw'r rhain sy'n cyfrannu at adfywio cymdogaethau, sy'n eiddo i gymunedau ac yn cael eu trefnu a'u harwain ganddynt. Maen nhw'n darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, fel canolfannau cymunedol lleol, a thai fforddiadwy, rheoli eiddo a gwasanaethau ymgynghori sy'n eiddo i'r gymuned/yn cael eu harwain gan y gymuned (Montgomery et al., 2012; Kleinhans, 2017). Canfu Crisp et al. (2016) ganlyniadau cadarnhaol o ran creu swyddi i drigolion lleol a chynyddu incwm yn yr economi leol, tra bod y dystiolaeth ar ansawdd swyddi a ph'un a yw aelwydydd difreintiedig yn manteisio ar gyflogaeth yn fwy cymysg. Gall perchnogaeth gymunedol (e.e. ar adeiladau a mannau) a rheoli asedau gyfrannu at greu swyddi a chefnogi menter gymunedol, ond mae tystiolaeth bod ardaloedd mwy cyfoethog yn fwy tebygol o fanteisio ar y cynlluniau hyn a chael budd ohonynt (Varady, 2015). At hynny, mae ymdrechion yn aml yn cael eu tanseilio gan berthynas gymhleth â sefydliadau cyhoeddus lleol sy'n codi cwestiynau ynglŷn ag i ba raddau y mae'r sefydliadau hyn yn gallu cynllunio a darparu eu gwasanaethau yn effeithiol yn ymarferol (Kleinhans, 2017). Mae gwydnwch – gallu mentrau cymunedol i gynnal busnes heb fethu – wedi'i amlygu fel her hefyd, sy'n dibynnu ar gysylltiadau a rhwydweithiau cymdeithasol cryf o fewn y gymuned, arweinyddiaeth entrepreneuraidd a chefnogaeth gan sefydliadau allweddol (van Meerkerk et al., 2018).**

**Yn gyffredinol, er bod gan ddinasoedd a threfi lawer i'w ennill trwy gymryd rhan yn y mentrau cydweithredol hyn, dylid rhoi sylw i werthuso.**

---

Hefyd, mae polisïau a phrosesau cyfranogol yn bwysig ar gyfer cynllunio adnewyddu strategol sy'n **hyrwyddo cynhwysiant ac yn atal dadleoli a boneddigeiddio**. Er bod arferion fel hyrwyddo cymysgedd o dai deiliadaeth, rheoleiddio anheddau twristiaeth, diogelu tenantiaid, a diogelu busnesau lleol (e.e. trwy annog amrywiaeth o fusnesau a gweithredu ar ardrethi busnes) yn strategaethau trefol pwysig i'r perwyl hwn, gall cynnwys y gymuned hefyd helpu dinasyddion lleol i gyfrannu at gynllunio a chyd-gynllunio mannau cyhoeddus neu gyllidebu cyfranogol (Cyngor Ewrop, 2020; Ellen, 2018). **Gan fod dinasyddion tlawd a difreintiedig yn fwy tebygol o brofi rhwystrau rhag cyfranogi, bydd angen i strategaethau ymgysylltu effeithiol** ystyried cyfansoddiad a deinameg y gymuned, oherwydd gall 'agor' mannau trafod yn unig arwain at orgynrychiolaeth gan grwpiau pwerus, gan fethu â chreu cyfranogiad gwirioneddol gynhwysol (Saguin, 2018; Thorpe et al., 2019).

Gall dulliau sy'n ymwneud â **phartneriaethau amlochrog** ar draws cymdeithas sifil gymryd llawer o amser a chreu rhwystredigaeth ac anfodlonrwydd oherwydd eu hyd a'u cymhlethdod, neu oherwydd eu methiant i fodloni disgwyliadau sy'n aml yn afrealistig o ran cyflawni (McMorran et al., 2018). Fodd bynnag, gallant greu

ymdeimlad cryfach o gymuned, gyda mwy o gyswllt cymdeithasol a gweithgarwch cymunedol (Turcu, 2012). Gall prosiectau a arweinir gan y gymuned feithrin ymdeimlad o rymuso ymhellach, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau lles cadarnhaol, a gellir ystyried bod hynny'n nod ynddo'i hun (Kearns a Whitley, 2020). Ochr yn ochr ag ymdeimlad cryfach o hunan-effeithiolrwydd sy'n gallu cefnogi cyfranogiad dinesig a gwleidyddol pellach, gall cyfranogiad dilys hefyd wella sgiliau'r cyfranogwyr a chyfrannu at wasanaethau mwy ymatebol (Milton et al., 2011).

Mae tystiolaeth o **adfywio trefi bach** wedi amlygu nifer o heriau sy'n gysylltiedig â menter o'r math hwn. Mae lefelau ariannu a chapasiti, o ran nifer yr ymarferwyr medrus sydd ar gael, yn aml yn brin ac er bod partneriaethau cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat lleol yn hanfodol, yn aml nid ydynt yn cael eu cefnogi gan strwythurau llywodraethu digonol ac maen nhw'n wynebu heriau o ran cydlynu a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro (Perkins et al., 2019). Yn y cyd-destunau hyn, efallai y bydd gan 'entrepreneuriaid hael', sydd â chysylltiad cryf â lle ac sy'n awyddus i fuddsoddi'n lleol, rôl bwysig i'w chwarae. Fodd bynnag, mae eu diffyg profiad yn aml yn dwysáu'r diffyg paratoi gan wasanaethau cyhoeddus lleol i fanteisio ar y partneriaethau hyn (Levy et al., 2021). Felly, mae llywodraethu effeithiol yn hanfodol er mwyn manteisio ar y cyfleoedd y gall partneriaethau â'r gweithredwyr hyn eu cynnig mewn ardaloedd nad oes ganddynt ddigon o adnoddau yn aml ac nad oes ganddynt fawr o obaith o gymryd rhan mewn adfywio sylweddol heb bartneriaethau o'r fath.

